❖ Tyrd i Achub a Rhyddhau

Arglwydd Iesu, daethost i achub pobl rhag ofn,
i'w rhyddhau o ffolineb ac anwybodaeth,
ac i ddangos iddynt sut i garu:
tyrd eto i'n bywydau ni,
i'n hachub rhag yr hyn sy'n gwneud bywyd
yn ddiflas a brawychus,
a helpa ni i fyw er mwyn eraill,
fel y gwanethost ti.
Tyrd i'n bywydau, O Iesu,
i'n troi yn ôl at Dduw,
i ddileu yr hyn sy'n annheilwng ynom,
ac i'n cymhwyso i fod yn rhan o'th deyrnas ar y ddaear.

Trefor Lewis